Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 14 Medi 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 20 MEDI 2017** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017 (copi wedi'i amgáu).

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau busnes canlynol yn cael eu hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 12 a 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf, yn cael ei datgelu.

**5 CAIS AM DRWYDDED CERBYD HACNI** (Tudalennau 19 - 28)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i drwyddedu cerbyd at ddibenion trwyddedu cerbyd hacni.

**6 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 519937** (Tudalennau 29 - 40)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 519937.

**7 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520399** (Tudalennau 41 - 52)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 520399.

**8 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 520398** (Tudalennau 53 - 64)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn gofyn i aelodau benderfynu ar adnewyddu cais gan Ymgeisydd Rhif 520398.

**9 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 516098** (Tudalennau 65 - 68)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Ymgeisydd Rhif 516098.

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**10 CAIS AM HYSBYSEBU AR GERBYD HACNI** (Tudalennau 69 - 76)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais gan Berchennog Cerbyd Hacni am gymeradwyaeth i arddangos arwyddluniau ar ei gerbyd trwyddedig.

**11 ADOLYGU TREFN GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT** (Tudalennau 77 - 114)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) am ddatblygu Polisi drafft Gyrwyr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat i roi gwell rheoleiddio a chefnogaeth i'r drefn cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y sir.

**12 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I FFIOEDD TRWYDDEDU TACSI A THALIADAU TARIFF** (Tudalennau 115 - 120)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) sy'n gofyn am gymeradwyaeth aelodau ar gyfer newidiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau ar gyfer y drefn trwyddedu tacsis.

**13 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD** (Tudalennau 121 - 122)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu), yn diweddaru aelodau o'r cynnydd mewn perthynas ag adolygiad o bolisi presennol masnachu ar y stryd yn Sir Ddinbych.

**14 ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION** (Tudalennau 123 - 124)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar gynnydd yr adolygiad o Ddatganiad o Egwyddorion y Cyngor ar gyfer Deddf Gamblo 2005.

**15 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU** (Tudalennau 125 - 128)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (copi wedi'i amgáu) yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor i'w chymeradwyo.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Carson Irving (Cadeirydd)
Joan Butterfield
Brian Jones
Barry Mellor
Melvyn Mile
Arwel Roberts

Alan James (Is-Gadeirydd)
Peter Scott
Thomas
Rhys Thomas
Huw Williams

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL

| CAM | DISGRIFIAD |
|---|---|
| 1. | Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol. |
| 2. | Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4. |
| 3. | Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad. |
| 4. | Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras |
| 5. | Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos<br><br>Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny. |
| 6. | Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion. |
| 7. | Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.) |
| 8. | Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol |
| 9. | Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny. |
| 10. | Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol.<br><br>DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion. |

| | |
|---|---|
| 11. | Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd. |
| 12. | Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd. |
| 13. | Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd. |
| 14. | Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded. |
| 15. | Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn). |
| 16. | Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan:<br><br>1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.<br>2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd.<br><br>Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded. |
| 17. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl. |
| 18. | Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor. |

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i, (enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o *(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant: *(Gweler y nodyn isod)** | |

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 28 Mehefin 2017 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Cynghorwyr Joan Butterfield, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones, Barry Mellor, Melvyn Mile, Arwel Roberts, Peter Scott a Huw Williams

**Arsylwr** – Cynghorydd Meirick Davies

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfreithiwr (AL), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Swyddog Trwyddedu (JT), Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu (TB) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cynghorydd Rhys Thomas

**2 PENODI CADEIRYDD**

Ceisiwyd enwebiadau i benodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2017/18. Cynigiodd y Cynghorydd Brian Jones y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving yn Gadeirydd, ac fe eiliwyd hyn gan y Cynghorydd Arwel Roberts. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James yn Gadeirydd ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor. O'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving fel Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.*

**3 PENODI IS-GADEIRYDD**

Gofynnwyd am enwebiadau gan y Cadeirydd ar gyfer Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2017/8. Cynigiodd y Cynghorydd Joan Butterfield y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James yn Is-Gadeirydd ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Barry Mellor. Gan nad oedd unrhyw enwebiadau eraill ac o'i roi i'r bleidlais -

***PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd Alan James fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.*

**4 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Datganodd y Cynghorwyr Joan Butterfield, Alan James, Brian Jones, Barry Mellor a Tony Thomas fuddiant personol yn Eitem 12 ar y Rhaglen – Cais am Adnewyddu

Trwydded i Yrru Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, oherwydd roeddent yn adnabod yr Ymgeisydd.

## 5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017, a’r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2017.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2017 a 5 Ebrill 2017 fel cofnod cywir.*

Ar y pwynt hwn, cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen i ddarparu ar gyfer unigolion a oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a’r Cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 517116

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 517116 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;

(ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i ganiatáu'r cais yng ngoleuni'r collfarnau a ddatguddiwyd yn dilyn datgeliad manwl i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), yn ymwneud â throseddau a gyflawnwyd ym 1998 o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, a oedd heb eu datgelu gan yr Ymgeisydd, a’r croniad o 14 pwynt cosb ar ei Drwydded Gyrru DVLA a oedd yn ymwneud â throseddau traffig a gyflawnwyd rhwng 2014 a 2015, gydag un ohonynt heb eu datgelu gan yr Ymgeisydd;

(iii) dogfennaeth berthnasol yn ymwneud â’r achos, yn cynnwys manylion cyfweliad ffurfiol yr Ymgeisydd yn amgaeedig gyda’r adroddiad;

(iv) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, ac

(v) estyn gwahoddiad i’r Gyrrwr ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi cael yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Gorfodi Traffig (TB) yr achos.

Rhoddodd yr Ymgeisydd rhywfaint o wybodaeth gefndir am ei amgylchiadau personol a hanes cyflogaeth, a'i uchelgais i fod yn yrrwr tacsi. Esboniodd ei amgylchiadau o amgylch y broses ymgeisio, yn cynnwys trafodaethau gyda staff trwyddedu am ei droseddau, a rhoddodd ei resymau dros hepgor manylion penodol troseddau ar y ffurflen gais, ac amseriad cyflwyno ei gais yn seiliedig ar eu cyngor nhw. Cyfeiriwyd hefyd at y cyfweliad ar dâp ac ymhelaethodd ar y cyngor a roddwyd ar y staff trwyddedu, a galwodd ar dyst a oedd yn bresennol i roi sylwadau ar ei ddatganiad. Rhoddodd y tyst eirda i'r Ymgeisydd hefyd. Yn olaf, fe sicrhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn addas i ddal trwydded, a ddangoswyd yn ei swydd flaenorol a chyfredol rhan-amser, a rhoddodd esboniad o'i droseddau a'i amgylchiadau ar yr adeg honno.

Yn ystod y cwestiynu, adroddodd yr Ymgeisydd ar yr ymchwil roedd wedi'i wneud o ran perthnasoldeb ei euogfarnau a'i gred, ar wahân i'r 3 phwynt cosb, bod y pwyntiau cosb a oedd yn weddill, fel y dywedwyd yn yr adroddiad, wedi darfod. Fodd bynnag, fe addefodd ei fod wedi dibynnu'n ormodol o bosibl ar y cyngor a roddwyd gan y staff trwyddedu yn ystod y broses ymgeisio.

Cadarnhaodd Swyddogion nifer o faterion ac ymatebwyd i gwestiynau fel a ganlyn -

- rhoddwyd gwybodaeth am bwyntiau cosb ar wefan y DVLA – roedd pwyntiau'n aros ar y drwydded am 3 blynedd, ac yn cael eu cadw ar gofnod am 4 blynedd yn y mwyafrif o achosion. Roedd y pwyntiau a gronnwyd gan yr Ymgeisydd yn berthnasol yn y broses ymgeisio ac yn aros ar gofnod tan y dyddiadau a nodwyd ym mharagraff 4.9 o'r adroddiad
- roedd y cais wedi'i wneud a'i dderbyn 31 Mawrth ac roedd y dystysgrif DBS wedi'i chyflwyno ym Mai 2016
- roedd polisi euogfarnau'r Cyngor yn manylu y gall gyrrwr gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu lle ceir mwy na dwy fân drosedd traffig
- roedd pob pecyn cais yn cynnwys arweiniad i ymgeiswyr a pholisi euogfarnau'r Cyngor, ac yn nodi'n glir sut y byddai euogfarnau'n cael eu trin. Nid oedd amodau trwyddedu cerbydau hacni/hurio preifat (llyfr glas) wedi'i gyhoeddi ar yr adeg honno ac yn ymwneud ag amodau yn dilyn rhoi trwydded.

Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, ailadroddodd yr Ymgeisydd ei fod wedi trafod ei gais gyda staff trwyddedu ac wedi datgelu ei euogfarnau, ac wedi ceisio cyngor ar hynny, cyn cwblhau'r ffurflen gais a oedd wedi'i chyflwyno'n unol â'r cyngor hwnnw. Sicrhaodd aelodau ei fod yn addas i ddal trwydded ac nad oedd yn risg i'r cyhoedd, yn seiliedig ar ei hanes o euogfarnau a gan ystyried ei gymeriad da.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais am drwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 517116.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Roedd Aelodau wedi ystyried ffeithiau'r achos yn ofalus a'r esboniad gan yr Ymgeisydd o ran y troseddau a'i resymau dros beidio â datgelu ei euogfarnau perthnasol. Roedd gan yr Ymgeisydd 14 pwynt cosb a arhosodd ar gofnod, ac roedd wedi methu datgelu rhai ohonynt ar ei ffurflen gais. Felly penderfynodd yr aelodau y dylid gwrthod y cais ar y sail honno'n unol â pholisi euogfarnau'r Cyngor.

Nid oedd unrhyw fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd wedi perswadio'r aelodau y dylent wyro oddi wrth y polisi euogfarnau a chaniatáu'r cais, ac ystyriwyd mai cyfrifoldeb yr Ymgeisydd oedd sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar y ffurflen gais. Fodd bynnag, roedd yr Ymgeisydd wedi cael ei atgoffa ei fod yn gallu gwneud cais newydd yn y dyfodol, pan fydd y pwyntiau cosb wedi darfod.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Ymgeisydd, a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

## 8 ADNEWYDDU CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 518819

[Datganodd y Cynghorwyr Joan Butterfield, Alan James, Brian Jones, Barry Mellor a Tony Thomas gysylltiad personol, ac fe adawsant y cyfarfod yn ystod yr eitem hon.]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais i adnewyddu a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 518819 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
(ii) swyddogion heb fod mewn sefyllfa i roi'r cais adnewyddu yn dilyn croniad o 9 pwynt cosb ar Drwydded Gyrru DVLA yr Ymgeisydd ar gyfer troseddau traffig rhwng y cyfnod Chwefror 2014 a Mai 2018, a oedd wedi'u cadarnhau yn dilyn gwiriad fel mater o drefn, fel rhan o'r cais adnewyddu;

(iii) polisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd euogfarnau, ac

(iv) estyn gwahoddiad i'r Ymgeisydd ddod i'r cyfarfod i gefnogi ei gais i adnewyddu ac i ateb cwestiynau'r aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol yn y cyfarfod, ynghyd â'i Gynrychiolydd Cyfreithiol, a chadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu'r (NJ) adroddiad gan fanylu ar ffeithiau'r achos.

Esboniodd yr Ymgeisydd yr amgylchiadau o amgylch y tair trosedd traffig, yn enwedig o ran y drosedd ddiwethaf, a'r mesur lliniaru a dderbyniwyd gan yr Ynadon ac wedi'i adlewyrchu yng ngostyngiad y pwyntiau cosb a roddwyd. Ychwanegodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol y byddai'r mân droseddau goryrru'n dod i ben yn 2018 ac

amlygwyd y dull dim goddefgarwch gan Heddlu Gogledd Cymru'n hynny o beth. Ailadroddodd hefyd y mesur lliniaru a gyflwynwyd o ran y drosedd ddiwethaf pan fu teithiwr yn sâl. Wrth gau, dywedodd y Cynrychiolydd Cyfreithiol y byddai cael gwared ar y drwydded yn arwain at anawsterau ariannol i'r Ymgeisydd, a rhoddodd wybod mai ychydig o yrwyr hwyr nos oedd yno, ac roedd yr Ymgeisydd yn helpu i fodloni'r galw hwnnw.

Ymatebodd yr Ymgeisydd i gwestiynau aelodau ynglŷn â'r troseddau a chadarnhaodd ei fod yn gweithio'n annibynnol. Sefydlwyd hefyd, er y newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth ynglŷn â'r troseddau goryrru, roedd y dull dim goddefgarwch wedi'i weithredu am beth amser cyn hynny.

Wrth wneud ei ddatganiad terfynol, rhoddodd Cynrychiolydd Cyfreithiol yr Ymgeisydd wybod nad oedd yn ceisio trechu'r broses ddyledus, ac wedi egluro'r amgylchiadau o ran y troseddau traffig yn glir. Os byddai aelodau'n penderfynu cael gwared ar y drwydded, byddai hefyd yn cael gwared ar fywoliaeth yr Ymgeisydd ac yn achosi anawsterau ariannol.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *bod y cais i adnewyddu trwydded i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 518819 yn cael ei ganiatáu, gyda rhybudd ffurfiol yn cael ei roi ynghylch ei euogfarnau moduro a'i ymddygiad yn y dyfodol.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Prif ystyriaeth y pwyllgor oedd diogelwch y cyhoedd ac nid oedd dweud y byddai cael gwared ar y drwydded yn achosi straen ariannol, ac yn rhoi pwysau ar y rhai hynny sydd eisiau tacsis yn y nos yn ystyriaethau perthnasol, a chawsant eu diystyru. Roedd Aelodau wedi ystyried ffeithiau'r achos yn ofalus, a'r mesur lliniaru a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd o ran yr euogfarnau moduro. Mynegwyd pryder o ran cronni 9 pwynt cosb, a fyddai fel arfer yn golygu gwrthod y cais. Fodd bynnag, ar ôl ystyried y mesur lliniaru ac o ystyried bod yr euogfarnau'n cael eu dosbarthu fel mân droseddau traffig, a gan dderbyn bod yr euogfarn olaf wedi digwydd o dan amgylchiadau anodd, cytunwyd peidio â gwrthod y cais i adnewyddu'r tro hwn. Yn hytrach, rhoddwyd ystyriaeth i wahardd y drwydded am gyfnod penodol neu roi rhybudd ffurfiol. Ar y cyfan, penderfynwyd rhoi rhybudd llym o ran yr euogfarnau traffig ac ymddygiad yn y dyfodol yn yr achos hwn. Atgoffwyd yr Ymgeisydd hefyd am y pwysigrwydd o ddatgelu unrhyw droseddau'n dilyn euogfarn, yn unol ag amodau trwyddedu.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu felly i'r Gyrrwr a'i Gynrychiolydd Cyfreithiol, a chafodd wybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Lys yr Ynadon o fewn 21 diwrnod.

**9 GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (1)**

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded ar ddau Gerbyd Hurio Preifat;

(ii) y polisi drafft ynglŷn â cheisiadau i gael eithriad i arddangos platiau hurio preifat a sticeri drws (Atodiad A i'r adroddiad);

(iii) pwerau'r Cyngor i roi gollyngiad perchennog rhag arddangos plât trwyddedu, gan ystyried natur weithredol y gwaith ynghyd ag ansawdd y cerbyd dan sylw, a lle byddai'r cerbyd yn cael ei weithredu;

(iv) yr ymgeisydd wedi rhoi manylion llawn y ddau gerbyd sy'n destun y cais a natur y busnes (Atodiad B i'r adroddiad), a

(v) ffactorau penderfynu eraill sydd angen eu hystyried ac amodau a awgrymwyd (Atodiad C i'r adroddiad), pe bai aelodau o blaid roi'r cais am ollyngiad.

Rhoddodd y Swyddog Trwyddedu grynodeb o'r adroddiad. Tynnodd sylw'r aelodau at yr amodau awgrymedig (Atodiad C i'r adroddiad) a rhoddodd wybod y dylid cael gwared ar amod 9.

Ymhelaethodd yr Ymgeisydd ar weithrediad a natur ei fusnes, a oedd yn cynnal gwaith corfforaethol yn bennaf. Eglurwyd y rheswm dros ei gais am ollyngiad, er mwyn uwchraddio'r cerbydau oherwydd llwyddiant ac ehangiad ei fusnes. Roedd ceisiadau blaenorol wedi'u rhoi gan y pwyllgor ac wedi cynnwys cefnogaeth gan gwmnïau a oedd yn gleientiaid.

Gohiriwyd y pwyllgor i ystyried y cais a -

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cais am ollyngiad o'r gofyniad i arddangos platiau trwydded a sticeri drws cerbydau hurio preifat ar gyfer y ddau gerbyd fel y manylir yn yr adroddiad, yn ddarostyngedig i'r amodau (tynnu amod 9) fel y manylir yn Atodiad C yr adroddiad.*

Dyma oedd y rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ar ôl ystyried yr adroddiad a chyflwyniad yr Ymgeisydd, roedd aelodau'n fodlon bod natur ac ansawdd y cerbydau dan sylw'n bodloni'r meini prawf i eithrio yn yr achos hwn. Roedd yr amodau wedi'u gorfodi er mwyn helpu rheoleiddio a gorfodi. Roedd yr aelodau'n falch i weld llwyddiant y busnes a bod cerbydau'n cael eu huwchraddio.

Cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

**10 GOLLYNGIAD O'R GOFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU TRWYDDED CERBYDAU HURIO PREIFAT (2)**

Rhoddodd y pwyllgor wybodaeth bod y cais hwn wedi'i dynnu'n ôl erbyn hyn.

Ar y pwynt hwn (11.15 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, ailddechreuodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

## 11 ADOLYGU – DEDDF GAMBLO 2005 DATGANIAD O EGWYDDORION

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn cyflwyno drafft y Cyngor o'i Ddatganiad o Egwyddorion (Deddf Gamblo 2005), i'w ystyried a'i gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad statudol i adolygu'r Datganiad o Egwyddorion bob tair blynedd. Roedd y ddogfen ddrafft wedi'i datblygu gan y chwe awdurdod trwyddedu yng Ngogledd Cymru i sicrhau cysondeb mewn materion yn ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo, ac roedd ystyriaeth ddyledus wedi'i rhoi o amcanion trwyddedu Deddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo, fel rhan o'r adolygiad hwnnw. Roedd manylion y broses ymgynghori hefyd wedi'u rhoi, a oedd yn cynnwys awdurdodau cyfrifol a deiliaid trwydded presennol. Cadarnhaodd Aelodau eu bod yn hapus i gymeradwyo'r drafft ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol ac felly -

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo Datganiad o Egwyddorion drafft y Cyngor (Deddf Gamblo 2005) sydd wedi'i atodi i'r adroddiad ar gyfer ymgynghori statudol.*

## 12 ADOLYGU'R POLISI SEFYDLIADAU RHYW

Cyflwynodd Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ar adolygiad o'r Polisi Sefydliadau Rhyw.

Ym Mawrth 2015, roedd y Pwyllgor Trwyddedu wedi penderfynu y dylid cymryd camau i fabwysiadu darpariaethau Adran 27 y Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 er mwyn rheoleiddio clybiau glinddawnsio fel lleoliadau adloniant rhyw, o dan Atodlen 3 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982, ac i ddiwygio'r Polisi Sefydliadau Rhyw cyfredol yn hynny o beth a sicrhau ei fod yn addas at y diben. Er nad oes safleoedd o'r math hwn yn Sir Ddinbych ar hyn o bryd, byddai mabwysiadu'r pwerau hyn yn gweithredu fel mesur ataliol rhag unrhyw safleoedd o'r fath yn y dyfodol. Oherwydd yr angen i flaenoriaethau fformwleiddiad a diwygiad y polisïau, ystyriodd swyddogion y byddent mewn sefyllfa i gyflwyno polisi diwygiedig drafft i aelodau yn 2018. Yn y cyfamser, byddai unrhyw geisiadau ar gyfer lleoliadau adloniant rhyw yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu o dan weithdrefnau presennol.

Adroddodd y Cynghorydd Joan Butterfield bod y sefydliad rhyw a oedd wedi arfer ei leoli ar Water Street, y Rhyl, wedi'i ail-leoli y tu allan i'r sir, ond roedd wedi gweithredu'n ddisylw heb unrhyw broblemau ac heb beri tramgwydd.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad a bod y terfynau amser ynddo ynglŷn â chreu Polisi Sefydliadau Rhyw drafft diwygiedig yn cael eu cymeradwyo.*

**13 ADOLYGU'R POLISI MASNACHU AR Y STRYD**

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn diweddaru aelodau ar y cynnydd â'r bwriad o adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd cyfredol yn Sir Ddinbych.

Yn 2015, awdurdodwyd swyddogion gan y Pwyllgor Trwyddedu i adolygu'r polisi masnachu ar y stryd presennol er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau gyda'r gyfundrefn ac awgrymu gwelliannau i reoleiddio a chefnogi masnachu ar strydoedd y sir yn well. Ystyriwyd polisi drafft gan y Pwyllgor Trwyddedu yn Rhagfyr 2016, a chytunwyd y byddai ymgynghoriad cychwynnol yn cael ei wneud gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, ynghyd ag adrannau cyngor mewnol, yn enwedig o ran system arfaethedig y caniatâd bloc dros dro a digwyddiadau arbennig a amlinellir yn y polisi drafft, cyn ymgynghoriad cyhoeddus. Roedd y sylwadau a ddaeth i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad cychwynnol wedi'u cynnwys yn y drafft diweddaraf, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus tan 30 Mehefin 2017. Awgrymwyd y byddai drafft terfynol, yn ymgorffori ymatebion o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Tynnodd y Cynghorydd Joan Butterfield sylw at bwysigrwydd polisi addas at y diben, yn enwedig ar gyfer trefi mwy, ac roedd yn falch y byddai'r polisi'n cael ei gyflwyno'n ôl i'r pwyllgor er mwyn ei gadarnhau. Er nad oedd yn cofio'r polisi drafft yn cael ei gyflwyno gerbron Cyngor Tref y Rhyl, byddai'n adolygu eu hymateb ac yn ailedrych ar y polisi drafft mewn ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd y Cynghorydd Butterfield yn arbennig o awyddus i adolygu'r system arfaethedig o ganiatâd bloc dros dro ar gyfer masnachu ar y stryd, ac awgrymodd y dylid cynhyrchu map yn hynny o beth er mwyn eglurder. Fe wnaeth y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd annog ymgysylltiadau â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a chroesawodd y cyfle i drafod y mater ymhellach. Nid oedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn cofio'r polisi drafft yn cael ei gyflwyno gerbron Cyngor Tref y Rhuddlan, ond dywedodd y byddai'n gwneud ymholiadau. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd Roberts o ran cost cau'r ffyrdd ar gyfer digwyddiadau cymunedol, sefydlwyd nad oedd yn fater i'w ystyried o dan y polisi masnachu ar y stryd, ond gallai fod yn fater i archwilio ei ystyried. Cytunodd y Cynghorydd Roberts i gyflwyno ffurflen cynnig gan aelodau i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio'n uniongyrchol yn hynny o beth. Teimlai'r Cynghorydd Huw Williams y byddai'n werth ymgynghori â'r Grwpiau Ardal Aelodau hefyd ar y polisi masnachu ar y stryd drafft. Rhoddodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd wybod y byddai polisi terfynol yn cael ei ddrafftio'n dilyn y cyfnod ymgynghori, a chytunodd i ymgysylltu â'r Grwpiau Ardal Aelodau cyn cyflwyno'r fersiwn terfynol i'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad ac awdurdodi swyddogion i barhau i weithio ar y Polisi Masnachu ar y Stryd drafft, gyda fersiwn terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor i'w hystyried.*

**14 RHAGLEN GWAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â rhaglen waith arfaethedig y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2016.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at baragraff 3.4 o'r adroddiad, ynglŷn â pholisi euogfarnau cenedlaethol yn cael ei ddatblygu ar gyfer awdurdodau lleol, gan y Sefydliad Trwyddedu a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.  O ganlyniad, awgrymodd swyddogion y dylid gohirio unrhyw waith pellach ar adolygu'r polisi cyfredol hyd nes y bydd y polisi cenedlaethol wedi'i gwblhau.  Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd swyddogion -

- tua dwy flynedd yn ôl oedd cyfarfod diwethaf Fforwm Tacsis Sir Ddinbych, ac nid oedd cynlluniau cyfredol i'w ailgychwyn, o ystyried nad oedd yn cynrychioli Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd, ond wedi canolbwyntio'n bennaf ar fasnach yn y Rhyl a Phrestatyn
- ni fu cynnydd mewn prisiau tacsis ers 2008/09 gan nad oedd y fasnach dacsis wedi cefnogi'r cynnydd yn gyffredinol; fodd bynnag, roedd yn debygol y byddai cais gan y fasnach ar y gweill, a fyddai'n arwain at adroddiad i'r pwyllgor, a fyddai'n cael ei gynnwys ar y rhaglen gwaith i'r dyfodol.  Nodwyd bod y prisiau tacsis yn dangos yr uchafsymiau sy'n daladwy, ac y gallai cwmnïau tacsis godi llai pe dymunent wneud hynny.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu fel y manylir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ynghyd â diwygiadau arfaethedig fel y manylir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Cais am Hysbysebu ar Gerbyd Hacni |

**1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Ystyried cais gan Mr. Gareth Jones, sy'n Berchennog Cerbyd Hacni sefydledig, am gymeradwyaeth i arddangos arwyddluniau ar ei gerbyd trwyddedig.

**2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Yn unol ag awdurdod dirprwyedig, gall swyddogion trwyddedu gymeradwyo ceisiadau o'r fath yn unol â pholisi presennol.

2.2 Er bod gan swyddogion awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo ceisiadau fel a ddisgrifir yn 2.1 uchod, mae'r cais penodol hwn wedi codi pryderon gyda swyddogion ac felly nid yw wedi'i gymeradwyo ar lefel swyddog.

2.3 Ar ôl derbyn cais o'r fath, gofynnir i Aelodau ystyried y manylion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn i'w cynorthwyo wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais hwn.

**3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

**4.0 GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Mae Mr Jones wedi dod at y Cyngor gyda'r bwriad o wneud cais am ganiatâd i arddangos 2 arwyddlun ar ei gerbyd sydd newydd ei drwyddedu (Atodiad A).

4.2 Mae polisi presennol y Cyngor (5.6) a manyleb cerbyd (7.6) yn nodi’n glir y gofynion derbyniol sy’n ymwneud ag arwyddion, hysbysebu a chynllun lliwiau cerbydau trwyddedig. Mae manylion llawn i’w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

## 5.0 YSTYRIAETH

5.1 Wrth roi ystyriaeth i geisiadau o’r fath, dylai Aelodau fod yn fodlon na fydd natur yr arwyddluniau yn achosi tramgwydd neu ddenu sylw annerbyniol.

5.2 Bydd Aelodau am ystyried yw pob math o arwyddlun chwaraeon ac arwyddion gwladgarol yn dderbyniol i gael eu harddangos ar bob cerbyd trwyddedig yn gyffredinol. Er enghraifft, mae’n bosibl y bydd cais yn dod i law i arddangos teyrngarwch i dîm chwaraeon neu wlad a allai ddenu sylw annifyr, neu gynyddu’r posibilrwydd am ymddygiad troseddol.

5.3 Er ei bod yn bosibl nad yw cais Mr Jones yn dod y tu allan i’r gofynion fel a nodir uchod yn awtomatig, mae gan swyddogion bryderon sy'n golygu y gall cymeradwyo’r cais gael goblygiadau ar y mathau o geisiadau a geir yn y dyfodol.

5.4 Os bydd Aelodau o blaid gwrthod ceisiadau o’r fath ar sail y pwyntiau a amlinellir yn 5.2, mae’n bosibl y byddant am ystyried diwygio’r polisi presennol i eithrio unrhyw arwyddluniau clybiau chwaraeon, arwyddion gwladgarol a phethau tebyg er diogelwch y gyrrwr trwyddedig, yn ogystal â diogelwch y cyhoedd yn gyffredinol.

## 6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod Aelodau yn ystyried y cais i arddangos yr arwyddluniau a chymryd un o’r opsiynau canlynol:

- cymeradwyo’r cais fel a ofynnir, neu
- wrthod rhoi cymeradwyaeth i’r cais

6.2 Os bydd Aelodau o blaid gwrthod rhoi cymeradwyaeth i’r cais, mae’n bosibl y byddant am ddiwygio’r polisi presennol yn 7.6.3 fel sy’n briodol.

APPENDIX A




TAXI
SELF CLOSING DOORS
L.C.C.C.
VOYAGER FX8


TAXI
Gareth's
07905 650280
TX15 GAZ
FX8


TX15 GAZ

## 5.6 ARWYDDION/HYSBYSEBU/CYNLLUN LLIWIAU

5.6.1 Mae'n bwysig fod y cyhoedd yn gallu nodi a deall y gwahaniaeth rhwng cerbyd Hacni a cherbyd Hurio Preifat.

5.6.2 Mae platiau adnabod cerbyd yn nodwedd allweddol i gynorthwyo i nodi cerbydau sydd wedi'u trwyddedu'n briodol. Bydd pob cerbyd trwyddedig yn arddangos un plât ar flaen ac un ar gefn y cerbyd.

5.6.3 Mae'n rhaid i Gerbyd Hacni a drwyddedir gan y Cyngor osod arwydd ar y to wedi'i oleuo. Mae'n rhaid i'r arwydd to nodi "Tacsi/Taxi" ac mae'n rhaid ei oleuo pan fydd ar gael i'w logi.

5.6.4 Bydd manylion unrhyw arwyddion neu hysbysebion i gael eu gosod ar Gerbyd Hacni yn cael eu cyflwyno i'r Adain Drwyddedu i'w hystyried o ran y cynnwys. Os nad yw'r hysbyseb yn cael ei gymeradwyo gan y Swyddog yna bydd y cais i hysbysebu'n cael ei atgyfeirio i'r Pwyllgor Trwyddedu i'w ystyried ganddynt.

## 7.6 ARWYDDION A HYSBYSIADAU

7.6.1 Gall y perchennog arddangos enw'r cwmni sy'n gweithredu'r cerbyd a /neu ei rif ffôn, ar ochr a/neu gefn y cerbyd, yn is na lefel y ffenestr, ond ni chaniateir unrhyw arwyddion, arwyddlun neu hysbysiadau eraill y tu mewn na thu allan i'r cerbyd heb ganiatâd ysgrifenedig penodol gan y Cyngor.

7.6.2 Rhaid i unrhyw Berchennog sydd am ddefnyddio neu werthu gofod ar y cerbyd ar gyfer hysbysebu cwmni/busnes arall wneud cais i'r Cyngor i ddechrau gyda hysbyseb drafft i'w ystyried. Dim ond un hysbyseb awdurdodedig a ganiateir.

7.6.3 Ni ddylai hysbysebion o'r fath:

i) gynnwys unrhyw beth crefyddol neu wleidyddol
ii) hysbysebu alcohol neu dybaco
iii) gynnwys pornograffi neu dramgwyddo chwaeth dda
iv) hyrwyddo ffioedd is, neu
v) hysbysebu swyddi

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Adolygu Proses Drwyddedu Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried proses drwyddedu gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a'r gwelliannau a awgrymwyd i alluogi swyddogion i ddatblygu Polisi Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i wella'r ffordd y caiff gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat y sir eu rheoleiddio a'u cefnogi.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Derbyn barn yr Aelodau am y broses drwyddedu bresennol ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat a gofyn am eu cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori ynghylch polisi newydd.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Mae Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol o ran trwyddedu gyrwyr cerbydau hurio preifat.

3.2 Mae Adran 46 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol o ran trwyddedu gyrwyr cerbydau hacni.

3.3 Er mwyn derbyn trwydded mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos eu bod yn unigolyn "addas a phriodol".

3.4 Mae prawf "addas a phriodol" presennol yr awdurdod a'r broses

drwyddedu fel a ganlyn:

a. Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (gwiriad cofnodion troseddol)
b. Gwiriad trwydded yrru'r DVLA
c. Asesiad meddygol grŵp 1
d. Prawf gwybodaeth (7 maes – gwybodaeth am yr ardal leol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, gwasanaeth cwsmeriaid, rhifedd a ffioedd, rheolau'r ffordd fawr, cynnal a chadw cerbydau, polisi trwyddedu ac amodau)
e. Gwiriadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol
f. Gwiriad Menter Twyll Genedlaethol

3.5 Dim ond ar ôl bodloni'r gofynion uchod y bydd ymgeisydd yn cael ei asesu'n unigolyn addas a phriodol ac yn cael trwyddedu.

3.6 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor bolisi ysgrifenedig ar gyfer gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat, fodd bynnag dilynir y gweithdrefnau swyddfa a nodir yn 3.4 uchod.

3.7 Rydym ni'n cynnig cyflwyno polisi gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat sy'n nodi'n glir beth yw safiad yr Awdurdod ar y broses drwyddedu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru newydd ddechrau ymgynghori ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth dacsis a gall hynny arwain at newid trefniadau rheoleiddio trwyddedau gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Felly, bydd unrhyw bolisi yn ystyried gofynion deddfwriaethol newydd a chanllawiau perthnasol. Gellir gweld y ddogfen ymgynghori lawn yn Atodiad 1.

3.8 Mae'r swyddogion o'r farn y dylid parhau i ddatblygu polisi gyrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat newydd, ac i gadw llygad ar gynnydd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

3.9 Mae'r swyddogion yn croesawu barn yr Aelodau ar y broses drwyddedu bresennol, ond maent wedi amlygu'r meysydd canlynol ar gyfer gwelliannau posibl.

| TESTUN | GWEITHDREFN BRESENNOL | DEWISIADAU POSIBL |
|---|---|---|
| Gwiriadau Meddygol | Gwiriad meddygol grŵp 1 gan feddyg teulu cofrestredig – wrth ymgeisio a phob tair blynedd hyd at 60 oed, a phob blwyddyn | Mae'r Cyngor yn cydnab dylai gyrwyr trwyddedig g safonau meddygol llyma gyrwyr cyffredin oherwyd bod yn cludo aelodau o'r cyhoedd sy'n disgwyl teit |

| | | |
|---|---|---|
| | wedi hynny | diogel ac oherwydd eu bod yn gyrru am gyfnodau hirach.<br>Dewis:<br>Safonau Ffitrwydd Meddygol Grŵp 2, fel sy’n berthnasol i yrwyr HGV a bysiau - mae gofyn i ymgeiswyr gael asesiad meddygol wrth ymgeisio. Bydd asesiad meddygol arall yn cael ei gynnal pan fydd y gyrrwr yn 45 oed a phob pum mlynedd wedi hynny tan y bydd yn 65 oed lle cynhelir yr asesiadau yn flynyddol, oni nodir fel arall gan yr ymarferydd meddygol. |
| Cymhwyster | Dim | Mae’r awdurdod trwyddedu o’r farn, oherwydd natur, gofynion a phwysau’r rôl, y dylai ymgeiswyr nad ydynt wedi eu trwyddedu gyda’r awdurdod dderbyn cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol sy’n cynnwys gofal cwsmer, diogelwch ar y ffyrdd a diwallu anghenion pobl anabl a diogelu.<br>Dewis:<br>Cyflwyno cymhwyster priodol ar gyfer ymgeiswyr newydd a'i ddefnyddio fel arf gorfodi ychwanegol ar gyfer torri amodau trwyddedau. |
| Oed a phrofiad gyrru | Dal trwydded yrru’r DVLA am o leiaf 12 mis, beth bynnag yw oedran yr ymgeisydd | Nid yw oedran yn ffactor pwysig wrth asesu addasrwydd ymgeiswyr newydd oherwydd natur y rôl. Mae’n rhaid i’r awdurdod trwyddedu fod yn fodlon bod gan ymgeiswyr brofiad a gwybodaeth briodol am yrru.<br>Dewis:<br>Disgwylir y bydd ymgeiswyr yn 21 oed neu’n hŷn ar adeg ymgeisio ac wedi dal trwydded yrru'r DVLA ers dwy flynedd o leiaf. |

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn argymell y canlynol:

i. Cyfarwyddo swyddogion i ddechrau llunio’r polisi drafft, gan ystyried datblygiadau proses Llywodraeth Cymru, ac i ddechrau ymgynghori â phartïon â diddordeb, gan adrodd yn ôl mewn cyfarfod diweddarach.

Rhif:WG31865

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# TRWYDDEDU TACSIS A CHERBYDAU HURIO PREIFAT YNG NGHYMRU

Dyddiad cyflwyno: 12 Mehefin 2017

Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 8 Medi 2017



OGL © Hawlfraint y Goron

**TROSOLWG**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ystyried cynigion a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr ym mis Mai 2014 i ddiwygio trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

**SUT I YMATEB**

Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 12 Mehefin 2017 ac yn dod i ben ar 8 Medi 2017. Gwnewch yn siŵr fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau gofynnol.

Mae'r ddogfen ar gael ar y rhyngrwyd yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Ymatebwch drwy:

- Lenwi ffurflen ymateb yr ymgynghoriad yn Atodiad; neu
- Anfon neges e-bost neu bostio eich ymateb i'r manylion cyswllt isod.

**RHAGOR O WYBODAETH YCHWANEGOL A DOGFENNAU CYSYLLTIEDIG**

Gellid sicrhau bod fersiynau Print mawr, Braille, CD sain a fersiynau mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

**MANYLION CYSYLLTU**


Cyfeiriad post: Tîm Polisi Trafnidiaeth Gyhoeddus
Trafnidiaeth – Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau
Llywodraeth Cymru
Pâr Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: PolisiTrafnidiaethGyhoeddus.PublicTransportPolicy@wales.gsi.gov.uk

Ffôn: 03000 251497

**DIOGELU DATA**

**Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni**

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth y Cynulliad sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth y Cynulliad yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Rhagair | tudalen 3 |
| Crynodeb Gweithredol | tudalen 5 |
| Cyflwyniad | tudalen 8 |
| Crynodeb o’r argymhellion | tudalen 10 |
| Dull Llywodraeth Cymru | tudalen 12 |
| Crynodeb o’r Cwestiynau | tudalen 26 |

**RHAGAIR**



Mae tacsis a cherbydau hurio preifat yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol sy'n cysylltu pobl â lleoedd pan nad yw gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus eraill ar gael neu pan nad ydynt yn ymarferol. Mae cyfraniad y sector yn sylweddol i'r economi liw nos a'r economi twristiaeth yn llawer o'n cymunedau ac mae'r diwydiant yn rhan allweddol o'n huchelgais ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

Mae tacsis a cherbydau llogi preifat yn ddull pwysig o gludiant gan alluogi pobl agored i niwed yn ein cymdeithas i gynnal eu hannibyniaeth yn y gymuned. Teithio mewn tacsi neu gerbyd hurio preifat yw'r unig ddewis trafnidiaeth i lawer o bobl.

Er gwaethaf pwysigrwydd y sector hwn i'n huchelgais o ran trafnidiaeth gyhoeddus, mae'r diwydiant yn parhau i gael ei lywodraethu gan gyfreithiau a luniwyd pan oedd cerbydau hacni yn cael eu tynnu gan geffylau yn olygfa gyffredin ar ein strydoedd. Yn syml, mae'r gyfraith yn gymhleth, mae hi'n perthyn i'r oes o'r blaen ac mae angen ei diwygio.

Bydd cychwyn darpariaethau penodol yn Neddf Cymru 2017 am y tro cyntaf yn dod â'r drefn drwyddedu ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar y sail hon, rwyf yn ystyried o’r newydd y gwaith sylweddol a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr i ddiwygio’r gyfraith sy’n gysylltiedig â thrwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Rwyf yn awyddus i weithio gyda’r diwydiant, awdurdodau trwyddedu lleol a defnyddwyr i ddatblygu trefniadau y gellid eu cyflwyno yng Nghymru i sicrhau bod tacsis a cherbydau hurio preifat yn parhau i gyfrannu at ein huchelgais i gael cymdeithas gysylltiedig a chynaliadwy.



**Ken Skates AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith**

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr ei gynigion i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl cychwyn darpariaethau perthnasol o Ddeddf Cymru 2017, bydd trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn fater a fydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

O dan y setliad datganoledig newydd hwn y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried eto y cynigion ynghylch y fframwaith ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, at ddiben sefydlu trefniadau newydd i Gymru.

Byddai'r trefniadau a gynigir yn:

a. Cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat, a bennir gan Weinidogion Cymru, â'r pŵer i awdurdodau trwyddedu lleol bennu safonau ychwanegol pan fo'n briodol gwneud hynny;

b. Bydd awdurdodau trwyddedu lleol, fodd bynnag, yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflwyno trwyddedau ac am gyflawni'r gwaith gorfodi ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat;

c. Ei gwneud yn haws i ddarparwyr tacsis a gwasanaethau hurio preifat weithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol a bydd yn rhoi pwerau gorfodi newydd i swyddogion trwyddedu i ymdrin â cherbydau a gyrwyr sydd wedi eu trwyddedu mewn gwahanol ardaloedd. Cynigir cosbau llymach hefyd ar gyfer towtio (mynd ati i geisio cwsmeriaid), gan gynnwys atafaelu cerbydau;

ch. Cynnwys phedicabiau a cherbydau gwahanol, gan gynnwys limwsîns hir o fewn cwmpas rheoliadau tacsis a cherbydau hurio preifat, ond gan gadw’r eithriad sy’n berthnasol i geir priodas ac angladd yn rhan o’r ddeddfwriaeth sylfaenol, a

d. Cadw gallu awdurdodau trwyddedu lleol i gyfyngu ar nifer y tacsis sy’n gweithio yn yr ardal y maent yn ei thrwyddedu.

Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y byddai’r rhan fwyaf o’r argymhellion a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, pe byddent yn cael eu cyflwyno, yn egluro ac yn symleiddio’r ddeddfwriaeth sy’n llywodraethu trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

Ar y sail hon, rydym mewn egwyddor yn cefnogi’r rhan fwyaf o’r cynigion ynghylch rheoliadau tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru.

Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae rhai argymhellion y mae angen eu hystyried eto yn fwy manwl. Diben yr ymgynghoriad polisi hwn yw ceisio barn ar y rheoliadau penodol hyn a nodir yn y paragraffau canlynol.

Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar y pecyn cyfan o fesurau a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn gysylltiedig â Chymru, er nad ydym yn gofyn amdanynt yn benodol.

Ceir copi o’r argymhellion llawn a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr, y mae angen eu darllen ar y cyd â’r ddogfen ymgynghori hon, trwy fynd i https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

**CYFLWYNIAD**

1. Ym mis Mai 2014, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr ei gynigion i ddiwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru a Lloegr.

2. Datblygwyd y cynigion yn rhan o Unfed Raglen Ddiwygio Cyfreithiau ar Ddeg Comisiwn y Gyfraith, a gomisiynwyd gan yr Adran Drafnidiaeth gan mai hi yw adran Llywodraeth y DU â chyfrifoldeb am drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

3. Y cylch gorchwyl oedd adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat gyda'r bwriad o'i moderneiddio a'i symleiddio, gan roi ystyriaeth briodol i fanteision posibl dadreoleiddio o ran lleihau'r baich ar fusnes a chynyddu effeithlonrwydd economaidd.

4. Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith bapur yn nodi ei gynigion drafft, a oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mai a mis Hydref 2012.

5. Derbyniwyd mwy na 3000 o ymatebion ysgrifenedig, gan gynnwys mwy na 800 o ymatebion i arolwg a gynhaliwyd gan y cylchgrawn Private Hire and Taxi Monthly. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys unigolion a sefydliadau cynrychiadol, gyrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat a gweithredwyr hurio preifat, swyddogion trwyddedu,

grwpiau anabledd, ymgynghorwyr arbenigol, undebau llafur a'r heddlu.

6. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chomisiynwyr Traffig a'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau ar wahanol gamau o'r prosiect.

7. Wrth ddatblygu'r cynigion terfynol, cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ymweliadau safle amrywiol hefyd, gan gynnwys cylchedau radio mawr ar gyfer tacsis a phencadlys gweithredwyr hurio preifat, teithio gyda'r masnachwyr tacsis a hurio preifat y tu mewn a thu allan i Lundain, arsylwi safleoedd tacsis a lleoliadau adloniant sydd â hanes o anawsterau gorfodi. Gwnaeth y dull hwn amlygu bod rhai o'r problemau y mae'r sector tacsis a hurio preifat yn eu profi yn lleol iawn ac yn benodol i achosion.

8. Yn rhan o'r setliad datganoledig newydd ar gyfer Cymru sydd i'w gyflwyno trwy Ddeddf Cymru 2017, bydd rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat yn dod yn fater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

9. O dan y setliad datganoledig newydd hwn y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried eto'r cynigion ynghylch y fframwaith ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn gysylltiedig â Chymru.

## CRYNODEB O'R ARGYMHELLION A WNAED GAN GOMISIWN Y GYFRAITH AR GYFER CYMRU A LLOEGR

10. Mae copi llawn o'r cynigion terfynol a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith wedi ei ailgyhoeddi ac maent i'w gweld yn https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ fel rhan o'r ymarfer ymgynghori hwn.

11. O dan y gyfraith bresennol, mae statudau ar wahân yn rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat yn eu tro. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cynnig un fframwaith cyfreithiol newydd sy'n cadw'r system dwy haen bresennol, gan wahaniaethu rhwng tacsis a cherbydau hurio preifat. Dim ond tacsis y dylid eu caniatáu i gael eu galw o ymyl y ffordd neu i godi teithwyr o safleoedd tacsis.

12. Pe bai'r trefniadau a gynigir yn cael eu mabwysiadu, byddent yn:

   a. Cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer yr holl dacsis a cherbydau hurio preifat, wedi'u pennu gan Weinidogion Cymru, â'r pŵer i awdurdodau trwyddedu lleol bennu amodau ychwanegol pan fo hynny'n briodol;

   b. Byddai awdurdodau trwyddedu lleol, er hynny, yn parhau i fod yn gyfrifol am gyflwyno trwyddedau a chyflawni gwaith gorfodi ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat;

c. Ei gwneud yn haws i ddarparwyr gwasanaethau hurio preifat weithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol a bydd yn rhoi pwerau gorfodi newydd i swyddogion trwyddedu i ymdrin â cherbydau a gyrwyr sydd wedi eu trwyddedu mewn gwahanol ardaloedd. Cynigir cosbau llymach hefyd ar gyfer towtio (mynd ati i geisio cwsmeriaid), gan gynnwys atafaelu cerbydau;

ch. Cynnwys phedicabiau a cherbydau gwahanol, gan gynnwys limwsîns hir o fewn cwmpas rheoliadau tacsis a cherbydau hurio preifat, ond gan gadw'r eithriad sy'n berthnasol i geir priodas ac angladd yn rhan o'r ddeddfwriaeth sylfaenol, a

d. Cadw gallu awdurdodau trwyddedu lleol i gyfyngu ar nifer y tacsis sy'n gweithio yn yr ardal y maent yn ei thrwyddedu.

13. Roedd cyflwyno hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o anabledd i yrwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn rhan o'r pecyn o fesurau a gynigiwyd gyda'r bwriad o wella hygyrchedd y gwasanaethau hynny i bobl anabl. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai awdurdodau trwyddedu lleol fod â'r pŵer i gyflwyno dyletswydd ar dacsis i stopio pan gânt eu galw ar ymyl y ffordd, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem bod rhai gyrwyr yn gyrru heibio pobl anabl.

14. Roedd cynigion Comisiwn y Gyfraith yn argymell hefyd y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol adolygu'r anghenion o ran hygyrchedd yn eu hardal bob tair blynedd, ac ystyried materion hygyrchedd wrth osod safleoedd tacsis.

15. Yn ogystal â hyn, er mwyn helpu i fynd i'r afael â phrinder cerbydau hygyrch, argymhellwyd y dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i weithredwyr mawr (neu anfonwyr, fel y byddent yn cael eu galw o dan y diwygiadau arfaethedig) fodloni cwotâu penodol o gerbydau hygyrch y mae'n rhaid i'r gweithredwyr eu darparu.

**DULL ARFAETHEDIG LLYWODRAETH CYMRU**

16. I grynhoi, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r rhan fwyaf o'r argymhellion a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, pe baent yn cael eu cyflwyno, yn egluro ac yn symleiddio'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat. Ar y sail hon, rydym mewn egwyddor yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r cynigion ynghylch rheoleiddio tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru.

17. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae rhai argymhellion y mae angen eu hystyried eto yn fwy manwl. Diben yr ymgynghoriad polisi hwn yw ceisio barn ar y rheoliadau penodol hyn a nodir yn y paragraffau canlynol. Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau rhanddeiliaid ar y pecyn cyfan o fesurau a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn gysylltiedig â Chymru, er nad ydym yn gofyn amdanynt yn benodol.

Argymhelliad 1

18. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylid cadw'r system dwy haen, gan wahaniaethu rhwng tacsis y gellid eu galw ar ymyl y ffordd neu eu defnyddio o safleoedd tacsis a cherbydau hurio preifat y mae'n rhaid eu trefnu ymlaen llaw cyn cymryd y daith.

19. Fel yr amlygwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, cyflwynwyd sawl dadl ddarbwyllol o blaid gwaredu'r gwahaniaeth rhwng tacsis a cherbydau hurio preifat. Cydnabyddir nad yw'r cyhoedd yn deall y gwahaniaeth rhyngddynt ac mae datblygiadau technolegol yn golygu y gellir trefnu taith o fewn munudau i ymgymryd â'r daith. Gall newid i system un haen symleiddio trefniadau trwyddedu yn well hefyd, a phennu safonau cenedlaethol a gwneud gorfodi yn broses symlach.

20. Yn Llundain er enghraifft, ceir mwy o ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng tacsi y gellir ei alw ar ymyl y ffordd a cherbyd hurio preifat, gan fod tacsis Llundain yn darparu'r cyfleustod o allu eu hurio ar unwaith gan ddefnyddio prisiau a reoleiddir.

21. Fodd bynnag, gallai newid i system un haen gyfuno nodweddion tacsis a cherbydau hurio preifat, gan alluogi pobl i hurio ymlaen llaw ac "yn y fan a'r lle", a'r ddau fath yn gweithredu dan fodel prisiau wedi'u rheoleiddio.

**Cwestiwn 1: A ddylid cadw'r system dwy haen yng Nghymru neu a ddylid datblygu model un haen ar gyfer y sector tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru?**

Argymhelliad 8

22. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith beidio â chyflwyno gofyniad i yrwyr tacsis gadw cofnodion ac eithrio tacsis sy'n codi teithwyr y tu allan i'r ardal y maent wedi eu trwyddedu ar ei chyfer.

23. Mewn egwyddor, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gofyniad i yrwyr tacsis gadw cofnodion cywir at ddibenion diogelu teithwyr, ond cydnabyddir y gall fod yn afresymol i'w gwneud yn ofynnol cadw cofnodion o deithiau na chawsant eu trefnu ymlaen llaw.

**Cwestiwn 2: A ddylai'r trefniadau yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i yrwyr tacsis gadw cofnodion cywir o:**

**a. bob taith a wneir mewn tacsi;**

**b. teithiau sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw yn unig neu rai a ddechreuodd y tu allan i'r ardal y mae'r tacsi wedi ei drwyddedu ar ei chyfer; neu**

**c. peidio â'i gwneud yn ofynnol i yrwyr tacsis gadw cofnodion**

Argymhelliad 15

24. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith beidio â'i gwneud yn ofynnol i gyfryngwyr sy'n gweithio yn unig gyda thacsis trwyddedig (a elwir yn "gylchedau radio") fod wedi'u trwyddedu.

25. O ystyried y byddai swyddogaeth bosibl unrhyw unigolyn sy'n trefnu archebion tacsi yn cynnwys bod yn gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth a allai fod yn sensitif a phersonol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am gymryd archebion ac ymdrin â data personol fod wedi'i drwyddedu.

**Cwestiwn 3: A ddylai'r trefniadau ar gyfer trwyddedu tacsis yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolion sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol fod wedi'i drwyddedu ai peidio?**

Argymhelliad 17

26. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai trwyddedu gweithredwyr gwmpasu swyddogaethau anfon yn unig ac ni ddylai bellach fod yn berthnasol i wahodd neu dderbyn archebion.

27. Cafodd y diffiniad o weithredwr at ddibenion trwyddedu ei gyfyngu i 'anfonwr'. Mae hyn ar y sail mai cyfrifoldeb yr anfonwr yw trosglwyddo'r archeb i gerbyd trwyddedig ac nad yw'r unigolyn sy'n cymryd yr archeb yn gwneud mwy na rhaglenni ffonau symudol a

gwefannau sy'n casglu ac yn trosglwyddo archebion i weithredwyr wedi hynny. Heblaw bod unigolyn sy'n cymryd archeb, na fyddai'n ofynnol iddo fod wedi ei drwyddedu o dan y cynigion, yn gallu dangos ei fod wedi trosglwyddo'r archeb i anfonwr trwyddedig, yna tybir mai ef yw'r 'anfonwr' ar gyfer y daith berthnasol honno. Mae'n rhaid i'r anfonwr fod wedi'i drwyddedu.

28. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai unrhyw unigolyn sy'n gyfrifol am ymdrin â gwybodaeth bersonol gan unrhyw unigolyn sydd eisiau archebu tacsi neu gerbyd hurio preifat fod wedi ei drwyddedu i wneud hynny.

**Cwestiwn 4: A ddylai unigolyn sy'n cymryd archeb ar gyfer cerbyd hurio preifat fod wedi'i drwyddedu?**

<u>Argymhelliad 36</u>

29. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith na ddylai ymgeiswyr ar gyfer trwydded cerbydau fod yn destun prawf person "addas a phriodol".

30. Yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, roedd awdurdodau trwyddedu yng Nghymru yn dadlau bod y ddarpariaeth yn cynnig trefniadau rhesymol i ddiogelu teithwyr ac y dylid ei chadw ar y sail honno.

**Cwestiwn 5: A ddylid cadw'r prawf person "addas a phriodol" ar gyfer ymgeisio am drwydded a'i chyflwyno yng Nghymru?**

Argymhellion 37/40

31. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith na ddylai fod gan awdurdodau trwyddedu bŵer cyffredinol i orfodi amodau unigol ar ddeiliaid trwyddedau tacsis neu gerbydau hurio preifat.

32. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn synhwyrol pennu safonau gofynnol er mwyn gwella cysondeb gwasanaethau ledled ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Ond mae angen sefydlu trefniadau i roi hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu lleol ychwanegu amodau priodol ar ddeiliaid trwyddedau unigol pan fo gorfodi unrhyw amod o'r fath yn gyfiawn, yn rhesymol ac yn gymesur.

33. Yn yr un modd, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai gwasanaethau hurio preifat fod yn ddarostyngedig i safonau cenedlaethol yn unig ac na ddylai awdurdodau trwyddedu fod â'r pŵer i orfodi amodau lleol bellach.

34. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen sefydlu trefniadau sy'n rhoi i awdurdodau trwyddedu lleol yr hyblygrwydd i ychwanegu gofynion a safonau ychwanegol sy'n berthnasol ac yn briodol i ddiwallu anghenion yr ardal leol, os nad yw gofynion o'r fath wedi'u cynnwys yn y safonau cenedlaethol.

**Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan awdurdodau lleol y disgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, i orfodi amodau ar ddeiliaid trwyddedau unigol i fodloni gofynion a safonau lleol ychwanegol pan fo rheswm dros wneud hynny?**

Argymhelliad 53

35. Cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylid pennu ffioedd hurio preifat yn genedlaethol ac na ellid eu hamrywio'n lleol. Dylai ffioedd trwyddedu tacsis barhau i gael eu pennu yn lleol, ond ar lefel nad yw'n is na'r ffi hurio preifat cenedlaethol.

36. Roedd y Comisiwn yn cydnabod bod y ffioedd yn cael eu pennu yn lleol ar hyn o bryd er mwyn adfer y costau'n llawn. Roedd yn dadlau y gallai cyflwyno safonau cenedlaethol ar gyfer cerbydau hurio preifat leihau'r amrywiaeth yn lefel y ffioedd rhwng awdurdodau cyfagos.

37. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi awgrymu hefyd y dylai fod gan awdurdodau lleol y pŵer i sefydlu cynllun sy'n galluogi awdurdodau lleol i gronni ffioedd trwyddedu hurio preifat at ddiben gorfodi.

38. Gallai trefniant arall ganiatáu i awdurdodau trwyddedu lleol bennu ffioedd ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat yn lleol, ar yr amod eu bod yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 7: O ran pennu ffioedd ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, a ydych chi'n cytuno:**

a. **Y dylai Gweinidogion Cymru bennu'r ffioedd ar gyfer trwyddedu cerbydau hurio preifat ac y dylai'r ffioedd ar gyfer tacsis gael eu pennu gan awdurdodau trwyddedu lleol ar gyfradd nad yw'n llai na'r ffioedd a bennir ar gyfer cerbydau hurio preifat – fel yr argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith; neu**

b. **Y dylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol bennu'r holl ffioedd yn eu hardaloedd, gan gyflawni eu swyddogaethau trwy roi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru?**

<u>Argymhelliad 56</u>

39. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai fod yn ddyletswydd ar awdurdodau trwyddedu lleol i gyhoeddi data am eu gyrwyr, cerbydau a thrwyddedu gweithredwyr ar ffurf y gallai'r awdurdod cenedlaethol ei wneud yn ofynnol, ar y sail yr ymddengys bod rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau trwyddedu yn fwlch yn y trefniadau presennol.

40. Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad nad oes dull cydnabyddedig o alluogi awdurdodau trwyddedu i wirio a yw ymgeisydd am drwydded mewn un ardal wedi bod yn destun camau gorfodi mewn ardal arall sydd wedi arwain at ddirymu trwydded.

41. Mae’n annhebygol y bydd cyhoeddi gwybodaeth yn unig yn datrys y diffygion a nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac ychydig iawn o werth i’r cyhoedd fyddai cyhoeddi gwybodaeth. Er hynny, derbynnir y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol gofnodi camau gorfodi sydd wedi arwain at gael gwared ar, neu wahardd dros dro, drwydded tacsi neu gerbyd hurio preifat. Hefyd, dylai’r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd i awdurdodau trwyddedu eraill, y bydd yn ofynnol iddynt edrych ar yr wybodaeth cyn caniatáu cais am drwydded.

**Cwestiwn 8: A ydych chi’n cytuno:**

a. **Y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol gyhoeddi gwybodaeth am ddata eu gyrwyr, cerbydau a thrwyddedu gweithredwr fel y pennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, neu**

b. **Y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol rannu gwybodaeth ynghylch unrhyw gamau gorfodi sydd wedi eu cymryd ac sydd wedi arwain at gael gwared ar drwydded, neu ei gwahardd dros dro, a’i bod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu edrych ar yr wybodaeth hon cyn caniatáu cais am drwydded.**

Argymhelliad 61

42. Mewn ardaloedd trwyddedu lle ceir cyfyngiadau eisoes o ran nifer, cynigiodd Comisiwn y Gyfraith y dylai deiliaid trwyddedau cerbydau barhau i allu trosglwyddo eu trwyddedau tacsi am bremiwm. Roedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Comisiwn yn datgelu bod masnach mewn gwerthoedd platiau wedi datblygu yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd nifer y tacsis yn gyfyngedig, gan gostio miloedd o bunnoedd. Nodwyd bod y gost hon yn gallu bod yn rhwystr ariannol i bobl newydd i'r farchnad ac nad yw'n annog unrhyw fuddsoddiad yn y sector. Yn ystod yr ymgynghoriad, roedd rhai wedi dadlau bod premiymau platiau yn annog proffesiynoldeb yn y diwydiant tacsis.

43. Roedd Comisiwn y Gyfraith yn derbyn na ddylai masnach mewn gwerthoedd platiau fod yn nodwedd o'r drefn drwyddedu, ond roedd yn cydnabod y bydd cael gwared ar y gwerthoedd hyn yn achosi caledi ariannol ac y byddai'n annheg. Cynigiwyd felly, y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer sefydlu gweithdrefn lle caiff deiliad trwydded tacsi drosglwyddo ei rwymedigaethau ef neu hi fel deiliad y drwydded i unigolyn arall. Byddai cynnal gwerth ffioedd platiau trwy'r rheoliad hwn yn cynnal yr arfer, y derbynnir nad oes croeso iddo, mewn ardaloedd lle ceir cyfyngiadau ar nifer y tacsis sy'n cael gweithredu ar hyn o bryd.

44. Dull amgen i'r hyn a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith yw y dylai unrhyw gynllun sydd wedi ei gynllunio i ddiogelu buddsoddiad a wnaed wrth drosglwyddo platiau trwydded ganolbwyntio ar 'brynu'n gyfan gwbl' yr ymrwymiad ariannol at y diben o ddileu'r arfer o werthu platiau.

45. Gellid caniatáu i awdurdodau trwyddedu lleol mewn ardaloedd lle ceir yr arfer o brynu platiau ddefnyddio incwm y ffi drwyddedu i ariannu cynllun 'prynu'n gyfan gwbl'. Mae'n bosibl y byddai'r gallu i 'gronni' incwm o'r ffi drwyddedu yn darparu ateb o ran sut i ariannu cynllun digolledu o'r fath.

46. Dylid dychwelyd platiau tacsi at yr awdurdod trwyddedu i'w hailgyflwyno ac ni ddylid eu masnachu rhwng deiliad trwyddedau a darpar ddeiliaid trwyddedau.

**Cwestiwn 9: Os oes angen, a ddylai Gweinidogion Cymru fod â'r pŵer i lunio cynllun sy'n:**

a. **Caniatáu i drwyddedau tacsis gael eu masnachu rhwng deiliaid trwyddedau a darpar ddeiliaid trwyddedau; neu**

b. **Ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu dychwelyd at yr awdurdod trwyddedu lleol i'w hailgyflwyno ond caniatáu i gynllun digolledu gael ei sefydlu i sicrhau bod deiliaid trwydded sydd wedi masnachu platiau yn flaenorol yng Nghymru yn cael eu digolledu am unrhyw golled bosibl.**

Argymhellion 65/67/68/69

47. Yn rhan o'i gynigion, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith gyfres o argymhellion ynghylch sut y dylai awdurdodau trwyddedu lleol weithredu eu swyddogaethau er mwyn gallu cyflawni'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Roedd y cynigion yn cynnwys gofynion ar awdurdodau trwyddedu i:

a. Cynnal adolygiad hygyrchedd bob tair blynedd;

b. Adolygu dyluniad safleoedd tacsis i sicrhau cydymffurfiad â Deddf Cydraddoldeb 2010; a

c. Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r awdurdod trwyddedu a gweithredwyr lleol mewn gwahanol fformatau, yn ogystal â gwybodaeth ynglŷn â'r mathau o gerbydau sydd ar gael yn eu hardaloedd.

48. Cynigiwyd hefyd y dylai fod gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth y pŵer i orfodi gofynion hygyrchedd ar weithredwyr/anfonwyr mawr. Yn benodol, dylai'r pŵer ganiatáu ar gyfer pennu cwotâu o gerbydau hygyrch y mae'n rhaid iddynt fod ar gael ar gyfer anfonwyr o'r fath.

49. Yng Nghymru, mae awdurdodau trwyddedu yn ddarostyngedig i Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, sy'n gorfodi gofynion ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru sydd wedi eu cynllunio i'w cynorthwyo i gydymffurfio â

dyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus a gyflwynwyd gan a149 o Ddeddf 2010. Os rhoddir yr hyblygrwydd i awdurdodau trwyddedu lleol ychwanegu amodau neu ofynion lleol ar ddeiliaid trwyddedau yn eu hardaloedd, yna ynghyd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r Rheoliadau cysylltiedig, gellir dadlau bod modd cyflawni'r argymhellion hyn dan y trefniadau presennol.

**Cwestiwn 10: A ydych chi o'r farn y gellid cyflawni'r gofynion cydraddoldeb a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith o dan y gofynion a orfodir gan ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus (a149) a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011?**

Argymhelliad 80

50. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith mai'r cam cyntaf yn y broses apelio o ran gwrthod, gwahardd dros dro neu ddirymu trwyddedau, yw y dylai fod hawl gan yr ymgeisydd neu ddeiliad trwydded gyfredol i ofyn i awdurdodau trwyddedu ailystyried y penderfyniad gwreiddiol. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd y dylai fod gan apelyddion yr hawl i osgoi'r cam hwn a mynd ymlaen yn uniongyrchol i lys yr ynadon.

51. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno mai'r cam cyntaf yn y broses apelio yw y dylai fod hawl gan yr ymgeisydd neu ddeiliad trwydded i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad gwreiddiol gan unigolyn sy'n annibynnol o'r penderfyniad gwreiddiol, er mwyn sicrhau bod unrhyw

adolygiad a gynhelir yn ddiduedd os nad yn gwbl annibynnol. Os yw'r apelyddion yn parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad yr apêl, y mae'n rhaid ymdrin ag ef o fewn amserlen resymol, yna bydd yr hawl i fynd ymlaen i'r llys ynadon yn cael ei gynnig.

52. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai apelyddion ganiatáu i adolygiad o'r penderfyniad ddigwydd cyn i apeliadau gael eu cyflwyno i'r llys ynadon. Mantais hyn yw gallu datrys y mater heb ei atgyfeirio i'r llysoedd a gall hyn leihau nifer yr achosion a all fel arall gael eu hystyried gan yr ynadon.

**Cwestiwn 11: A ydych chi'n cytuno ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr neu ddeiliaid trwyddedau cyfredol ganiatáu i adolygiad o'r penderfyniad i wrthod, gwahardd dros dro neu ddirymu trwydded gan unigolyn nad oedd ynghlwm â'r penderfyniad gwreiddiol gael ei gynnal o fewn amserlen resymol cyn y gellir cyflwyno apêl i'r llys ynadon?**

**CRYNODEB O'R CWESTIYNAU**

**Cwestiwn 1:** A ddylid cadw'r system dwy haen yng Nghymru neu a ddylid datblygu model un haen ar gyfer y sector tacsis a cherbydau hurio preifat yng Nghymru?

**Cwestiwn 2:** A ddylai'r trefniadau yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i yrwyr tacsis gadw cofnodion cywir o:

a. pob taith a wneir mewn tacsi;
b. teithiau sydd wedi eu trefnu ymlaen llaw yn unig neu rai a ddechreuodd y tu allan i'r ardal y mae'r tacsi wedi ei drwyddedu ar ei chyfer; neu
c. peidio â'i gwneud yn ofynnol i yrwyr tacsis gadw cofnodion

**Cwestiwn 3:** A ddylai'r trefniadau ar gyfer trwyddedu tacsis yng Nghymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolion sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol fod wedi'i drwyddedu ai peidio?

**Cwestiwn 4:** A ddylai unigolyn sy'n cymryd archeb ar gyfer cerbyd hurio preifat fod wedi'i drwyddedu?

**Cwestiwn 5:** A ddylid cadw'r prawf person "addas a phriodol" ar gyfer ymgeisio am drwydded a'i chyflwyno yng Nghymru?

**Cwestiwn 6:** A ydych chi'n cytuno y dylai fod gan awdurdodau lleol y disgresiwn, o fewn cyfyngiadau penodol, i orfodi amodau ar ddeiliaid trwyddedau unigol i fodloni gofynion a safonau lleol ychwanegol pan fo rheswm dros wneud hynny?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7**: O ran pennu ffioedd ar gyfer trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, a ydych chi'n cytuno:

a. Y dylai Gweinidogion Cymru bennu'r ffioedd ar gyfer trwyddedu cerbydau hurio preifat ac y dylai'r ffioedd ar gyfer tacsis gael eu pennu gan awdurdodau trwyddedu lleol ar gyfradd nad yw'n llai na'r ffioedd a bennir ar gyfer cerbydau hurio preifat – fel yr argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith; neu

b. Y dylid ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol bennu'r holl ffioedd yn eu hardaloedd, gan gyflawni eu swyddogaethau trwy roi ystyriaeth briodol i'r canllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru?

**Cwestiwn 8:** A ydych chi'n cytuno:

a. Y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol gyhoeddi gwybodaeth am ddata eu gyrwyr, cerbydau a thrwyddedu gweithredwr fel y pennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, neu

b. Y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu lleol rannu gwybodaeth ynghylch unrhyw gamau gorfodi sydd wedi eu cymryd ac sydd wedi arwain at gael gwared ar drwydded, neu ei gwahardd dros dro, a'i bod yn ofynnol i awdurdodau trwyddedu edrych ar yr wybodaeth hon cyn caniatáu cais am drwydded.

**Cwestiwn 9:** Os oes angen, a ddylai Gweinidogion Cymru fod â'r pŵer i lunio cynllun sy'n:

a. Caniatáu i drwyddedau tacsis gael eu masnachu rhwng deiliaid trwyddedau a darpar ddeiliaid trwyddedau; neu

b. Ei gwneud yn ofynnol i drwyddedau gael eu dychwelyd at yr awdurdod trwyddedu lleol i'w hailgyflwyno ond caniatáu i gynllun digolledu gael ei sefydlu i sicrhau bod deiliaid trwydded sydd wedi masnachu platiau yn flaenorol yng Nghymru yn cael eu digolledu am unrhyw golled bosibl.

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10:** A ydych chi o'r farn y gellid cyflawni'r gofynion cydraddoldeb a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith o dan y gofynion a orfodir gan ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol y sector cyhoeddus (a149) a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11:** A ydych chi'n cytuno ei bod yn ofynnol i ymgeiswyr neu ddeiliaid trwyddedau cyfredol ganiatáu i adolygiad o'r penderfyniad i wrthod, gwahardd dros dro neu ddirymu trwydded gan unigolyn nad oedd ynghlwm â'r penderfyniad gwreiddiol gael ei gynnal o fewn amserlen resymol cyn y gellir cyflwyno apêl i'r llys ynadon?

| |
|---|
| |

**Eich enw/sefydliad a chyfeiriad post/e-bost**

| |
|---|
| |

**Dywedwch wrthym ar ran pa grŵp yr ydych yn ymateb.** (ticiwch un)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Ganolog | | Grwpiau Defnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus | |
| Awdurdod Lleol (Cymru) | | Grwpiau Amgylcheddol | |
| Awdurdod Lleol (Lloegr) | | Grwpiau Anabledd | |
| Sector tacsis a cherbydau hurio preifat | | Grwpiau Cymunedol | |
| Comisiynwyr / Ombwdsmon | | Gweithredwyr/Defnyddwyr Gwasanaethau Cludo Nwyddau | |
| Grwpiau Cynghori | | Y Diwydiant / Gweithredwyr Bysiau | |
| Y Cyfryngau | | Y Diwydiant / Gweithredwyr Awyr | |
| Gwasanaethau Brys | | Y Diwydiant / Gweithredwyr Môr | |
| Y Sector Iechyd | | Undebau Llafur | |
| Arall (Nodwch) | | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Diogelu'r Cyhoedd<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706066 |
| **TESTUN:** | Newidiadau Arfaethedig i Ffioedd Trwyddedu Tacsi a Thaliadau Tariff |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Gofyn am gymeradwyaeth Aelodau ar gyfer newidiadau mewn ffioedd a thaliadau i'r drefn trwyddedu tacsi.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried cymeradwyo ffioedd diwygiedig ar gyfer trefn Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat sef gweithredwr, cerbyd, trwyddedau gyrrwr a phrofion. Cafodd y ffioedd hyn eu hadolygu ddiwethaf gan y Pwyllgor Trwyddedu yn 2008.

2.2 Dylai aelodau nodi y bydd y ffioedd arfaethedig yn cael eu cyflwyno ynghyd â newidiadau i wneud y broses drwyddedu'n fwy effeithiol.

## 3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Adrannau 53 a 70 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu'r Cyngor i godi ffioedd i roi trwyddedau mewn perthynas â gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat, cerbydau a gweithredwyr. Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r elfennau y gellir eu cynnwys yng nghost y ffi drwyddedu.

4.2 Gellir adfer cost cyflwyno a gweinyddu yn ffioedd trwydded gyrwyr. Mewn perthynas â thrwyddedau cerbyd a gweithredwr, gellir cynnwys cost resymol archwilio cerbydau, darparu stand cerbydau hacni ac unrhyw

gostau gweinyddu rhesymol neu gostau eraill mewn cysylltiad â'r blaenorol a chyda rheoli a goruchwylio cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat yn y ffioedd.

4.3 Ni ellir cynnwys y gost ar gyfer gorfodi gyrwyr, cerbydau neu weithredwyr heb drwydded yn y cyfrifiad. Ni all y Cyngor wneud elw o ffioedd trwydded a dylid dygwyl ymlaen unrhyw weddill. Gellir hefyd adfer unrhyw ddiffyg. Mae cysoni unrhyw weddill a diffyg dros gyfnod o dair blynedd.

4.4 Mae methodoleg ffioedd a thaliadau wedi'i ddyfeisio i alluogi adolygiad manwl o ffioedd a thaliadau yn unol â'r broses drwyddedu berthnasol.

4.5 Mae'r strwythurau ffioedd presennol ac arfaethedig yn Atodiad A.

4.6 Roedd y cynnydd diwethaf yn y ffioedd a thaliadau ar gyfer trwyddedu tacsi yn Ebrill 2008, arbed ar gyfer cynnydd yn y ffi Gyrrwr Hurio Preifat i'w lefel bresennol yn 2009.

4.7 Ers Hydref 2015 gellir cyflwyno trwyddedau am gyfnod o 5 mlynedd i weithredwyr, 3 blynedd i yrwyr a blwyddyn i gerbydau. Nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno trefn ar gyfer cyhoeddi am gyfnod o'r fath a bwriedir i broses o'r fath gael ei gyflwyno ynghyd â ffioedd arfaethedig a strwythur taliadau.

4.8 Mae deddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer cyhoeddi trwydded am gyfnod byrrach mewn amgylchiadau arbennig mewn achos unigol, nid oherwydd polisi cyffredinol.

4.9 Dylai aelodau nodi os byddant yn cymeradwyo'r tabl ffioedd diwygiedig yna mae Adran 70 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt hysbysebu yn y wasg leol gan roi o leiaf 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiad.

4.10 Os bydd yna unrhyw wrthwynebiad yna bydd angen ystyried y rhain ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ynghyd ag unrhyw adolygiadau a ystyrir yn briodol.

4.11 Os nad oes unrhyw wrthwynebiad yna bydd y ffioedd hyn yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017.

4.12 Mae angen adolygu ffioedd yn achlysurol er mwyn sicrhau bod y gost lawn yn cael ei hadfer, costau staffio, costau eraill a chost deunydd yn cynyddu'n flynyddol, os nad yw ffioedd yn cael eu hadolygu yna mae'n bosibl na fydd cost llawn ffioedd yn cael ei adfer.

4.13 Mae swyddogion yn dymuno tynnu sylw Aelodau at y ffaith bod y broses bresennol ar gyfer gwirio Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bob 3 blynedd

yn newid. Mae’r gwasanaeth hwn ar gontract gan y Cyngor ac ni fydd yn rhan o’r broses weinyddu mwyach ac yn hytrach bydd pob unigolyn yn gyfrifol am gael eu tystysgrifau eu hunain. Rhagwelir y bydd hynny’n dechrau yn yr Hydref 2017.

4.14 Mae swyddogion yn cynnig bod trwyddedau gyrru 3 blynedd yn dilyn y broses GDG 3 blynedd. Er mwyn sicrhau nad yw gyrwyr y tu allan i’r cylch GDG pan gyflwynir y ffioedd arfaethedig o dan anfantais yna bydd y ffi adnewyddu blynyddol presennol yn parhau nes bydd eu GDG nesaf yn ddyledus.

4.15 Mae swyddogion hefyd yn dymuno pwysleisio bod y Cyngor wedi derbyn cais yn ddiweddar i adolygu’r ffioedd tariff mesurydd tacsi ar gyfer cerbydau cerbyd hacni. Mae dros 100 o yrwyr yn cefnogi’r cais hwn. O ganlyniad bydd swyddogion angen cynnal adolygiad o’r ffioedd a chynnal ymgynghoriad ar y ffioedd hynny.

**5.0 ARGYMHELLIAD**

5.1 Bod yr aelodau yn

1) Cymeradwyo’r ffioedd a’r taliadau yn Atodiad A.
2) Awdurdodi swyddogion i gyhoeddi’r newidiadau i’r ffioedd Trwyddedu Tacsi mewn papur newydd lleol ar gyfer yr ymgynghoriad angenrheidiol ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad, byddant yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017.
3) Lle derbynnir unrhyw wrthwynebiadau, gofyn i’r Pwyllgor Trwyddedu ystyried y gwrthwynebiadau hynny yn eu cyfarfod nesaf gyda’r bwriad o weithredu (gyda neu heb addasiad) dim hwyrach na 1 Ionawr 2018.
4) Nodi’r newidiadau gweinyddol i’r drefn drwyddedu.
5) Awdurdodi swyddogion i gynnal adolygiad o ffioedd tariff tacsi ac ymgynghori fel bo’r angen gyda’r bwriad o adrodd ar y canfyddiadau i’r Cabinet ar gyfer gweithredu dim hwyrach na 1 Ionawr 2018.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad A**

**Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu**

| **Trwydded / Gweithgaredd** | **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
|---|---|---|
| Gweithredwyr Llogi Preifat (hyd at 10 cerbyd) – 5 mlynedd | Amherthnasol | 420.00 |
| Gweithredwyr Llogi Preifat (i bob 10 cerbyd) – 5 mlynedd | Amherthnasol | 250.00 |
| GRANT Gweithredwyr Llogi Preifat (i bob 10 cerbyd neu ran o hynny) - 3 blynedd | 110.00 | Amherthnasol |
| GRANT Gweithredwyr Llogi Preifat (i bob 10 cerbyd neu ran o hynny) - 3 blynedd | 110.00 | Amherthnasol |
| Cerbyd Hur NEWYDD (Blynyddol) | 200.00 | 200.00 |
| ADNEWYDDU Cerbyd Hur (Blynyddol) | 200.00 | 200.00 |
| Llogi Cerbyd Preifat NEWYDD (Blynyddol) | 200.00 | 200.00 |
| ADNEWYDDU Cerbyd Llogi Preifat (Blynyddol) | 200.00 | 200.00 |
| Gyrrwr (3 blynedd) NEWYDD/ADNEWYDDU | Amherthnasol | 270.00 |
| Gyrrwr (1 flwyddyn) NEWYDD | 140* | 250.00 |
| Gyrrwr (1 flwyddyn) ADNEWYDDU | 90 | 170.00 |
| Gyrrwr (1 flwyddyn) ADNEWYDDU am 3ydd blwyddyn | 140* | 200.00 |
| AILEISTEDD Prawf Gwybodaeth | 15.00 | 35.00 |
| Trosglwyddo Deilydd Cerbyd | 50.00 | 60.00 |
| Trosglwyddo Cerbyd (Cerbyd Hurio) | 75.00 | 100.00 |
| Trosglwyddo Cerbyd (Cerbyd Hurio Preifat) | 75.00 | 100.00 |
| Newid Plât Cefn | 11.00 | 35.00 |
| Newid Plant Blaen | 11.00 | 30.00 |
| Newid Arwydd | 14.00 | 25.00 |
| Newid Bathodyn | 7.00 | 25.00 |
| **cynnwys gwiriad GDG* | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu)<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Adolygiad o'r Polisi Masnachu ar y Stryd |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 I hysbysu Aelodau ynghylch yr adolygiad o'r polisi presennol o ran masnachu ar y stryd o fewn Sir Ddinbych.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Bu gwaith yn parhau o ran drafftio Polisi Masnachu ar y Stryd ac mae'r swyddogion yn ceisio barnau'r Aelodau ar ymgysylltu pellach i ddatblygu polisi sy'n addas i'r diben ar gyfer pawb y gellir eu heffeithio.

**3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD**

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Rhan III, Atodlen 4, Masnachu ar y Stryd.

**4. GWYBODAETH GEFNDIR**

4.1 Yn 2015, rhoddodd yr Aelodau yr awdurdod i swyddogion adolygu'r gweithdrefnau cymeradwyo ar gyfer masnachu ar y stryd er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau o ran y rheoliadau presennol, ac i awgrymu gwelliannau er mwyn mynd ati i reoleiddio a chefnogi masnachu ar y stryd yn well yn y Sir.

4.2 Ystyriwyd polisi drafft gan y Pwyllgor Trwyddedu yn Rhagfyr 2016, a chytunwyd y byddid yn cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, ynghyd ag adrannau mewnol y Cyngor.

4.3 Ymgorfforwyd sylwadau o'r ymgynghoriad cychwynnol hwnnw i mewn i

Bolisi Masnachu ar y Stryd drafft a fu'n destun ymgynghoriad cyhoeddus. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau.

4.4 Yn eu cyfarfod diwethaf ar 28 Mehefin, awgrymodd yr Aelodau, gan nad oedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi dod i ben, y dylai'r swyddogion ystyried unrhyw sylwadau a dderbyniwyd a'u hymgorffori mewn drafft pellach i'w ystyried mewn Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.

4.5 Fel y soniwyd uchod, ni ddarparwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r swyddogion wedi cael y cyfle i wrando ar adborth gan unigolion a thimau eraill o oddi mewn i'r Cyngor, gan gynnwys Aelodau, a daethant i'r casgliad bod angen gwneud rhagor o waith cyn y gellir cyflwyno Polisi Masnachu ar y Stryd sy'n addas i'r diben i'w ystyried gan y Pwyllgor hwn.

4.6 Mae'r swyddogion yn cynnig y dylid cynnal trafodaethau pellach i gael gwell dealltwriaeth o anghenion y rheini y gellir eu heffeithio gan y polisi, yn arbennig, masnachwyr "sefydlog" lleol, masnachwyr ar y stryd, cymunedau a thimau ehangach y Cyngor, e.e. Cynllunio, Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol. I gynorthwyo swyddogion drwy'r broses hon, mae'r swyddogion wedi cysylltu ag arbenigwyr ym maes busnes a chyfathrebu oddi mewn i'r Cyngor. Bydd yr adborth yn sgil yr ymgysylltu hwn yn galluogi swyddogion i ddrafftio polisi a fu'n destun proses ymgysylltu ac ymgynghori drylwyr.

## 5.0 ARGYMHELLIAD

5.1 Bod yr Aelodau'n awdurdodi swyddogion i barhau â'r gwaith ar y polisi masnachu ar y stryd drafft, ac yn ymgysylltu â grwpiau ac unigolion perthnasol i ddatblygu polisi drafft o'r fath i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Swyddog Cymorth Technegol (Trwyddedu)<br>licensing@denbighshire.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Adolygu – Deddf Gamblo 2005 Datganiad Egwyddorion |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Cynghori Aelodau am y cynnydd a wnaed gyda'r adolygiad angenrheidiol o Ddatganiad Egwyddorion y Cyngor ar gyfer y Ddeddf Gamblo 2005.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn unol â'r Ddeddf Gamblo 2005 mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Datganiad Egwyddorion bob tair blynedd.

2.2 Mae adolygiad o'r datganiad cyfredol wedi cael ei lunio a chafodd ei roi gerbron yr Aelodau yn eu cyfarfod diwethaf ar 28 Mehefin.

## 3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 349, Deddf Gamblo 2005

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Wrth bennu'r Datganiad Egwyddorion, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried amcanion trwyddedu'r Ddeddf Gamblo 2005 a 'Chanllaw i Awdurdodau Trwyddedu' y Comisiwn Gamblo.

4.2 Mae'r amcanion trwyddedu statudol yn cynnwys:

- Diogelu plant a phobl ddiamddiffyn eraill rhag niwed neu ecsploetiaeth yn sgil gamblo
- Atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i

gefnogi trosedd, a
- Sicrhau y cynhelir gweithgareddau gamblo mewn modd teg ac agored

4.3 Mae’r Datganiad Egwyddorion wedi cael ei datblygu gan y chwech Awdurdod Trwyddedu yng Ngogledd Cymru, gan ddod â chysondeb i faterion sy’n ymwneud â materion a swyddogaethau Gamblo.

**5.0 SYLWADAU’R SWYDDOGION**

5.1 Yn eu cyfarfod ar 28 Mehefin 2017, cymeradwyodd yr Aelodau’r fersiwn drafft o’r polisi a rhoi'r awdurdod i swyddogion gynnal ymgynghoriad.

5.2 Ymgynghorwyd â’r Awdurdodau Cyfrifol a ganlyn:

- Y Comisiwn Gamblo
- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Yr Awdurdodau Cynllunio
- Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd a Diogelwch a Safonau Masnach
- Gwasanaethau Plant
- Cyllid a Thollau ei Mawrhydi

5.3 Yn ogystal â’r uchod, mae’r polisi ar gael ar wefan y Cyngor am gyfnod o chwe wythnos.

**6.0 ARGYMHELLIAD**

6.1 Bod Aelodau yn ystyried cynnwys yr adroddiad hwn ac yn awdurdodi Swyddogion i barhau i weithio ar y fersiwn drafft o’r polisi drwy gasglu unrhyw ymatebion a dderbyniwyd a chyflwyno fersiwn terfynol i’r Aelodau i’w ystyried yn eu cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2017.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 20 Medi 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706451 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2017/18 |

## 1.0 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Darparu Aelodau â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ar gyfer 2017/18.

## 2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3.0 GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol iddynt gymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 12 mis o hyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Trwyddedu.

3.2 Mae'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yma wedi'i llunio wrth ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan lywodraeth ganolog.

3.3 Penderfynodd yr Aelodau y dylid diweddaru'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn ystod pob cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu er mwyn galluogi'r swyddogion i ymateb i bwysau neu newidiadau wrth iddynt godi, heb orfod gwneud newidiadau sylweddol i'r rhaglen.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol arfaethedig, fel y nodwyd yn yr Atodiad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Atodiad A**

**Pwyllgor Trwyddedu**

**Rhaglen Waith**

| **Dyddiad y Pwyllgor** | **Adroddiad** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2017** | Datganiad Egwyddorion (Gamblo) | Cymeradwyo |
| | Ffioedd a Thaliadau | Diweddariad / Cymeradwyo |
| **Mawrth 2018** | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat:<br>Polisi Collfarn Gyrwyr | Diweddariad |
| | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat:<br>Polisi Amodau Gweithredwyr / Gyrwyr | Diweddariad |
| | Polisi Masnachu ar y Stryd | Diweddariad |
| **Mehefin 2018** | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat:<br>Polisi Collfarn Gyrwyr | Cymeradwyo |
| | Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat:<br>Polisi Amodau Gweithredwyr / Gyrwyr | Cymeradwyo |
| | Polisi Defnydd Arfaethedig | Adolygu |
| | Polisi Eithrio Cerbydau Hurio Preifat | Adolygu |
| **Medi 2018** | Polisi Masnachu ar y Stryd | Cymeradwyo |
| | Polisi Casglu ar y Stryd | Adolygu |
| | Polisi Casgliadau Drws i Ddrws | Adolygu |
| **Rhagfyr 2018** | Gweithdrefn Pwyntiau Cosb | Diweddariad |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag